# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Mri. John Griffith, Richard Griffiths, Carwyn Jones, R.Meirion Jones, Eric Wyn Jones, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS, J A Roberts, Alun Roberts ac Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR),<br>Rheolwr Grantiau (JW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr T Ll Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn,<br>Mr R O Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr Bob Parry OBE FRAgS yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr J Arwel Roberts yn Is-gadeirydd.

**3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd y datganiadau o ddiddordeb isod :-

Datganodd Mr Richard Griffiths ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 6 – Ceisiadau am Grantiau Mawr – Cais 1 – Caru Amlwch a Chais 18 – Treftadaeth Ddiwylliannol Amlwch ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar bleidlais ar yr eitemau hynny.

Datganodd Mr Bryan Owen ddiddordeb personol yn eitem 6 – Ceisiadau am Grantiau Mawr – Cais 4 – Clwb Pêl-droed Aberffraw. Aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Datganodd Mr J Arwel Roberts ddiddordeb personol yn Eitem 6 – Ceisiadau am Grantiau Mawr – Cais 11 – Meithrinfa Morlo.

Datganodd Mr R O Jones, Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 6 – Ceisiadau am Grantiau Mawr - Cais 1 – Caru Amlwch ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem honno.

4 **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2018.

*(Cadarnhawyd y cofnodion gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill, 2018)*

5 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth oherwydd y gallai gwybodaeth gael ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn unol ag Atodlen 12A y Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

6 **CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR 2019/20**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â cheisiadau a dderbyniwyd am Grantiau Mawr.

Dywedodd y Trysorydd bod y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd, 2018 wedi penderfynu argymell cyllideb o £350k ar gyfer Grantiau Mawr yn 2019/20. Cymeradwywyd y gyllideb honno gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2018. Lansiwyd y broses ymgeisio yn Rhagfyr 2018 gyda dyddiad cau o 25 Ionawr, 2019 ar gyfer ceisiadau. Gwahoddwyd ceisiadau am gyllid dros swm o £8k i gynorthwyo gyda phrosiectau cyfalaf mawr neu refeniw i gyllido gwasanaethau penodol a fydd o fudd i bobl Ynys Môn. Rhaid i geisiadau fodloni unrhyw un o'r meini prawf isod :-

- Cymorth i grwpiau difreintiedig;
- Adfywio'r economi leol;
- Gwella sgiliau;
- Lleihau tlodi;
- Gwarchod treftadaeth;
- Diogelu'r Amgylchedd;
- Cyfranogiad mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chwaraeon, iechyd a budd cymunedol;
- Datblygu ysbryd a llesiant cymunedol.

Yn y cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2017, penderfynwyd na fyddai sefydliadau a oedd wedi derbyn arian o'r gronfa Grantiau Mawr o fewn y bum mlynedd ddiwethaf yn cael eu gwahardd rhag ymgeisio ond y byddai'r sefydliadau hynny ond yn cael eu hystyried unwaith y byddai'r holl geisiadau eraill wedi cael eu hystyried a bod arian yn parhau i fod ar ôl.

Dywedodd y Trysorydd y derbyniwyd 28 o geisiadau erbyn y dyddiad cau. Cafodd manylion y ceisiadau eu cynnwys fel Atodiad A yr adroddiad. Derbyniwyd un cais hwyr a phenderfynodd y Pwyllgor dderbyn y cais hwnnw ar gyfer ei ystyried.

Derbyniodd y Pwyllgor fanylion y ceisiadau gan y Swyddogion ac yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD :-**

- **Ystyried 14 o geisiadau mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwn;**

- **Cynghori 1 ymgeisydd i gyflwyno eu cais i gronfa Grantiau Bach yr Ymddiriedolaeth Elusennol.**

**Mr Bob Parry OBE FRAgS**
**CADEIRYDD**